# Iachawdwriaeth hen Ffynnon Gwenfrewi

## Ei chefndir gan EDWARD DAVIES

MAE'R arferiad o gyrchu at ffynhonnau detholedig i geisio cael gwellhad o afiechyd yn parhau heddiw. Er bod nifer o'r fath ffynhonnau yn Ewrop, mae'n debyg mai'r fwyaf adnabyddus i ni ym Mhrydain yw Lourdes.

Aiff miloedd o gleifion ar bererindod i Lourdes bob blwyddyn ond nifer fach iawn sydd yn gwella o afiechyd corfforol fel canlyniad i'w hymweliad. Yn ei *Hunterian Oration* yn 1952, dywedodd Dr George Day mai 200 allan o 68 miliwn o ymwelwyr dros y blynyddoedd a gafodd lwyr wellhad o afiechyd organaidd.

Daeth ffynnon Lourdes i fodolaeth ar ôl i eneth bedair ar ddeg oed, Bernadette Soubirous, weld y Forwyn Fair, a dychwelyd i'r fan nifer o weithiau wedi hynny. Un diwrnod cododd ffrwd wedi iddi durio i'r ddaear.

Nid dyma'r unig enghraifft o ffynnon yn codi mewn man lle digwyddodd rhywbeth arbennig. Mae Ffynnon Non i'w gweld tua chwarter milltir o Dyddewi, ac yn ôl traddodiad cododd yn yr union fan lle rhoddodd Non enedigaeth i Ddewi Sant. Roedd i'r ffynnon enw da am wella afiechydon y llygaid.

Roedd dwy ffynnon adnabyddus iawn ym Mhrydain yn y Canol Oesoedd, y naill yn Walshingham a'r llall, Ffynnon Gwenfrewi, yn gysylltiedig ag Abaty Basingwerk, ger Treffynnon. Daeth Ffynnon Gwenfrewi i fodolaeth yn y chweched ganrif fel canlyniad i ddigwyddiad goruwchnaturiol.

Yn ôl yr hanes ceisiodd Caradog ap Alun dreisio Gwenfrewi, merch ifanc brydferth a duwiol. Am iddi ei wrthwynebu, torrodd Caradog ei phen ymaith. Lle disgynnodd y pen cododd y ffynnon. Aiff y chwedl rhagddi i adrodd fod Sant Beuno, ewythr Gwenfrewi, wedi gosod ei phen yn ôl ar ei hysgwyddau fel nad oedd ond craith fain ar ei gwddf, a bu fyw am wyth mlynedd ar ôl hynny.

* * * *

NID YW hanes gosod pen yn ôl wedi ei dorri ymaith yn unigryw i hanes Gwenfrewi. Y gyfundrefn iacháu enwocaf yng ngwlad Groeg oedd cwlt Asclepiws. Adeiladwyd temlau iacháu ar nifer o fynyddoedd i Asclepiws, Duw Iechyd pwysicaf y Groegiaid, ac eithrio Apollo.

Er i gwlt Asclepiws gychwyn yn Trikki, yn Thessalonica (Salonica) adeiladwyd y deml fwyaf adnabyddus yn Epidaurus yn y 9fed ganrif cyn Crist.

Arferid cofnodi hanes cleifion a iachawyd ar dabledi clai, ac mae nifer fawr ohonynt ar gael. Ar un ohonynt ceir hanes gwraig yn dod i Epidaurus oherwydd ei bod yn cael ei phoenydio gan lynghyren fawr yn ôl y dyb. Archwiliwyd hi gan ddau o ddisgyblion Asclepiws, a daethant i'r penderfyniad mai'r unig driniaeth addas oedd torri ymaith ei phen; gwnaethpwyd hynny, ac wedi cryn ysgarmes trechwyd y llynghyren.

Ond, yn anffortunus, ni wyddai'r disgyblion sut i ail osod y pen ar y wraig. Trwy ffawd, daeth Asclepiws o'i daith, ac ail osododd y pen.

Mae yna nodwedd arall oedd yn gyffredin i Ffynnon Gwenfrewi a Theml Asclepiws, sef fod natur yr afiechydon dan drinieth yn y ddau le yn debyg i'w gilydd. Canodd Tudur Aled gywydd i Ffynnon Gwenfrewi sydd yn rhestru'r clefydau:

*Rhag heiniau fil, rhag hun ferr,*
*Rhag gwayw llewyg, rhag llawer,*
*Y dall a wyl, aed i'w llan,*
*A dyn crupl, o doi'n cropian;*
*Aed i offrwm y diffrwyth*
*E ddeffry hon iddo i ffrwyth,*
*Eithr, deufraich a thraed efrydd*
*A fai yn rhwym, fa ai'n rhydd;*
*Blin a thrwm, heb law na throed,*
*A ddaw adref ar ddeudroed.*
*Byddair, help a ddyry hon*
*Mud a rydd ymadroddion.*

Ac mewn gwirionedd gall y mathau hyn o afiechyd, sef parlys, dallineb, gwayw, byddardod a chloffni godi o achosion seicolegol. Rhaid pwysleisio fod y mwyafrif o'r fath glefydau â sylfaen organaidd iddynt. Tybed mai'r lleiafrif a oedd yn dioddef afiechyd seicolegol oedd yn derbyn iachâd dan awyrgylch arbennig y mannau hyn?

Yn y cwpled sy'n cyfeirio at 'heiniau fil' nid afiechydon a achosir gan facteria a feirwsiaid oedd gan Tudur Aled dan sylw, ond afiechydon yn gyffredinol. Cymharer cywydd Edmwnd Prys i 'Dybacco'. Aethpwyd â thybaco i Ewrop gyntaf yn 1546 fel cyffur, yn arbennig i drin cur pen a meigryn. Yn y cywydd canodd Prys:

*Meddygyn meigryn a mil*
*Hyn tawdd o heintiau eiddil*

Bu'n rhaid aros tan y ganrif ddiwethaf i Louis Pasteur a Robert Koch (darganfyddwr bacteria y dicáu) sylfaenu'r ddamcaniaeth facterial o afiechyd.

* * * *

YMWELAIS â'r ffynnon yn 1952, ac ar y pryd roedd nifer o gleifion yn parhau i gyrchu yno. Adeiladwyd capel dros y ffynnon tua 1495, ac mae'n mesur 52 troedfedd o hyd ac 20 troedfedd o led. Maint y ffynnon yw 36 troedfedd o hyd a 16 troedfedd o led.

Roedd nifer o faglau a rhwymynnau i'w gweld ar y muriau, wedi eu gadael yno gan gleifion, yn yr un modd yn union ag a ddigwyddodd yn Epidaurus.

Dyma'r cleifion oedd wedi gwella'n wyrthiol, ac mewn cywydd i Ffynnon Gwenfrewi, a briodolir i Iolo Goch, gwelir y cwpled awgrymiadol:

*Ei dwr o'r ddol, uwch grolawr*
*A'i main a wnau wyrthiau mawr.*

Gydol y canrifoedd ymwelodd nifer fawr o bobl â Threffynnon, yn dlodion a goludog. Cofnodir fod pedwar o frenhinoedd Prydain wedi bod ar bererindod yno, Rhisiart I yn 1189, Harri V yn 1416, Edward IV yn 1470 a Iago II yn 1686.

Mewn llawysgrif o eiddo'r Doctor Cooper o Gaer adroddwyd fod Iago II wedi derbyn dilledyn a wisgwyd gan ei hen-nain, Mari, Brenhines yr Alban, ar achlysur ei dienyddio yn anrheg fel arwydd o werthfawrogiad o'i ymweliad â'r ffynnon.

Yn 1606 cynghorodd Sion Dafydd Rhys i Syr Richard Bodenham ymdrochi yn Ffynnon Gwenfrewi. Cafodd lwyr wellhad o anhwylder croen.

Roedd dŵr y ffynnon o ansawdd da, ac yn arogli'n felys. Yn 1823 cyhoeddodd bardd anhysbys gerdd i'r ffynnon, ac mae'n sylwi:

*Ar y ceryg yn y ffynnon*
*Mae y gwaed yn amlwg ddigon*
*Rhwn a gollodd Winiffreda*
*Pan gadd ei phen ei dorri yma.*

Yn ôl traddodiad roedd y naw carreg yn y ffynnon yn troi'n goch eu lliw ar adeg arbennig bob blwyddyn. Arwydd bod gwaed Gwenfrewi wedi eu staenio yn ôl tyb ein hynafiaid. Awgrymodd Francis Jones mai'r achos oedd cynnwys haearn yn y dŵr. Nid yw staen coch o'r fath yn anghyffredin mewn ffynhonnau sydd â llawer o haearn yn y dŵr.

Ond yn achos Ffynnon Gwenfrewi nid yw yn eglurhad boddhaol. Disgwyliem i'r staen fod yn bresennol yn barhaol, yn hytrach nag ar amserau arbennig. Credaf fod Thomas Pennant yn agosach ati; dywed ef mai dau fath o fwsogl oedd yn gyfrifol am y lliw coch. Mae'n enwi *Jungermannia Alpenioides* a *Byssus Jolithus*.

Ni ddangosodd analysis o ddŵr y ffynnon unrhyw sylwedd llesol. Tyfai'r mwsogl ar ochrau'r ffynnon, ac arferai'r pererinion ei ddwyn ymaith i drin cleifion, ond roedd yn ail dyfu'n fuan.

* * * *

CAFODD y sefyllfa o amgylch Ffynnon Gwenfrewi ei beirniadu o dro i dro. Arferai'r foneddiges bruddglwyfus Celia Fiennes farchogaeth drwy Brydain ac aros i ymdrochi neu yfed o ddŵr ffynhonnau rhinweddol, ond ni wnaeth hynny yn Nhreffynnon oherwydd fod, 'Y Cymry coesnoeth yn ei gwylio', a barnodd eu bod 'yn fath ffiaidd o bobl'.

Yn 1714 ysgrifennodd Daniel Defoe hanes ei daith drwy Brydain, a sylwodd fod ardal y ffynnon yn frith o offeiriaid, yn cymryd arnynt eu bod yn feddygon, yn llawfeddygon, cleifion neu foneddigion.

Yn y cyfnod hwn pwysleisiwyd tarddiad goruwchnaturiol y ffynnon a honnwyd fod gwyrthiau wedi eu cyflawni yno. Ond ni chafodd hyn lawer o argraff ar Dr William Fleetwood, Esgob Llanelwy. Yn 1713 cyhoeddodd bamffled yn dilorni chwedl Gwenfrewi, a dywedodd yn gwta na wnaeth Gwenfrewi ddim yn wahanol i'r hyn fyddai unrhyw forwyn onest arall yn Sir Fflint wedi ei wneud dan yr un amgylchiadau.

Ni fedrwn, ac ni ddymunwn, anwybyddu rhan ffydd mewn iacháu. Mae iddo ran holl bwysig mewn meddygaeth, ac os mai ffynnon yw gwrthrych y ffydd pam lai? Serch hynny, nid yw'r sinig yn brin o'n hatgoffa o ddigwyddiadau sydd wedi niweidio enw da Lourdes a Ffynnon Gwenfrewi.

Yn dilyn ymweliad â Lourdes gan bererinion o Brydain cymerwyd tri ohonynt yn wael efo twymyn y teiffoid. Archwiliwyd dŵr o ffynnon Lourdes yn ofalus a chafwyd ynddo facteria teiffoid.

Peidiodd ffrwd oedd yn cyflenwi Ffynnon Gwenfrewi â chodi yn 1917, ac yn ôl un o bapurau dydd Sul ar 11 Medi 1949, ers hynny mae'r dŵr yn cael ei bibellu o gyflenwad cyfagos a arferai lenwi angen melin wlan.

Dywedais eisoes fy mod i wedi ymweld â'r ffynnon yn 1952, ond mwyaf piti ni wireddwyd cwpled Tudur Aled ar yr achlysur hwnnw:

*Doen yno a dyn annoeth*
*oddiyno daw yn ddyn doeth.*

NODYN: Wedi i'r erthygl uchod gael ei chysodi daeth newydd fod darn o bren y credir sy'n perthyn i arch Gwenfrewi ac yn mynd yn ôl cyn belled â'r wythfed ganrif wedi ei ddarganfod. Cafwyd y coedyn wedi ei lapio mewn memrwn yng nghefn hen gwpwrdd sy'n cynnwys hen ddogfennau yn eglwys Gatholig Santes Gwenfrewi yn Nhreffynnon gan hanesydd lleol, Tristan Gray-Hughes. Cadarnhawyd fod y pren yn perthyn i'r Oesoedd Tywyll ac yn un o'r darnau crefyddol ei berthynas hynaf sydd ar gael yng Nghymru. — Gol.